# Blaenoriaethau 2025-26

Ysgol Morgan Llwyd

## Sut benderfynwyd ar y blaenoriaethau?

- Mae'r ysgol yn dilyn cylch arfarnu sy'n cynnwys tair wythnos monitro benodedig. Mae pawb yn chwarae rhan yn yr wythnosau monitro.
- Yn ystod yr wythnosau monitro, byddwn yn craffu ar bopeth, o wersi i lyfrau, holiaduron, data, trafodaethau. Mae'r cyfan yn cael ei goladu a'i ddadansoddi cyn penderfynu ar gamau gweithredu.
- Mae'r blaenoriaethau'n bwydo ein Cynllun Datblygu ysgol a Chynlluniau Datblygu Adrannau.
- Byddwn yn adolygu'r cynlluniau hyn yn gyson ac yn newid / ychwanegu at y blaenoriaethau yn ôl yr angen.

## Gwerthuso Cynllun Datblygu 2024-25

- Mae'r paratoadau ar gyfer TGAU newydd 2025 yn eu lle a bydd y paratoi'n parhau ar gyfer cyrsiau 2026 a 2027. Llwyddwyd i ddiwygio adroddiadau i rieni yn unol a gofynion Cwricwlwm i Gymru.
- Rhoddwyd sylw i ddatblygu sgiliau darllen a rhifedd disgyblion. Tra byddwn yn parhau a hyn, bydd y flaenoriaeth yn symud at lythrennedd digidol a chywirdeb ieithyddol. Mae sawl agwedd ar ddysgu ac addysgu wedi cael eu hadnabod wrth fonitro hefyd.
- Rhannol lwyddiannus fu'r sylw i gefnogi disgyblion sy'n wynebu rhwystrau yn eu dysgu a byddwn yn parhau a'r flaenoriaeth hon yn 2025-26.
- Rhoddwyd fframwaith newydd Adolygu Datblygiad Proffesiynol (sy'n disodli Rheoli Perfformiad) ar waith yn llwyddiannus. Mae lle i ddatblygu gallu staff i ymchwilio a chydweithio ymhellach.

### DYSGU AC ADDYSGU

- ❑ Datblygu agweddau ar ddysgu ac addysgu a adnabuwyd yn sgil monitro 2025.

### LLES, GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

- ❑ Sicrhau'r gefnogaeth orau i ddisgyblion sy'n wynebu rhwystrau yn eu dysgu. Yn benodol:
  - Presenoldeb isel / gwrthod dod I'r ysgol
  - ADY / Niwroamrywiaeth
  - Disgyblion bregus
  - Tlodi / PYD
  - Cymhelliant isel

### ARWAIN A GWELLA

- ❑ Cynllunio ar gyfer yr ail don o gyrsiau TGAU newydd ym Medi 2026 a'r cyrsiau galwedigaethol yn 2027
- ❑ Datblygu gallu arweinwyr ar bob lefel i werthuso effaith gweithredu ar safonau dysgwyr

### AR DRAWS Y MEYSYDD

- ❑ Hyrwyddo Cymreictod a defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol.

## Sut fyddwn yn gweithredu?

- Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol a chynlluniau gwella adrannau yn cynnwys camau gweithredu clir ar gyfer pob blaenoriaeth. Mae cyllid, cerrig milltir adolygu, cyfrifoldebau ac anghenion hyfforddi wedi eu nodi yn y cynlluniau.
- Bydd yr Uwch Dim Arwain yn adolygu'r CD Ysgol bob pythefnos o fis Hydref ymlaen ac adrannau'n adolygu eu cynlluniau mewn cyfarfodydd adrannol.
- Bydd pob cynllun yn cael ei werthuso a'i ddiweddaru ar ôl y tair wythnos monitro.

## Datblygiad Proffesiynol

- Mae pob aelod o staff yn dilyn gweithdrefn Adolygu Datblygiad Proffesiynol sy'n nodi pa hyfforddiant fydd angen arnynt i wireddu'r blaenoriaethau.
- Defnyddir diwrnodau HMS i roi hyfforddiant i staff ar agweddau o'r Cynllun Datblygu yn ogystal a gweithdai amrywiol.

## Cymorth

- Byddwn yn derbyn cymorth gan yr Awdurdod Lleol a'n hysgolion cynghrair wrth weithio ar y blaenoriaethau.

## Atebolrwydd

- Mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo'r Cynllun ac yn ein dal yn atebol am ei weithredu. Gwneir hyn yn bennaf yng nghyfarfodydd yr Is Bwyllgor Safonau a gynhelir bob hanner tymor.
- Bydd Estyn yn arolygu'r ysgol yn rheolaidd. Mae copi o adroddiad Estyn Hydref 2022 ar gael ar wefan yr ysgol a canlyniad yr ymweliad Interim – Chwefror 2025